

**QWB24.2 - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2020**

**Presennol (drwy gysylltiad fideo):**

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

**Presennol (drwy gysylltiad fideo):**

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG).

**Ymddiheuriadau:**

Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru

**1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Nododd CM ac AML fod ganddyn nhw blant y byddai canslo cyfres arholiadau'r haf yn effeithio arnyn nhw.

**2. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 a Materion sy'n Codi**

- 2.1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.
- 2.2. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch y camau gweithredu yn y cofnodion, ac roedd pob un ohonynt wedi'u cwblhau.
- 2.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw faterion yr oeddent am eu trafod yn y papurau gwybodaeth.
- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth bellach am effaith coronafeirws ar y gyfres arholiadau, ac yn benodol y cynllunio wrth gefn a oedd ar y gweill. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yn niweddariad Prif Swyddog Gweithredol. Cyfeiriodd y Bwrdd at bapur QWB26.11 (rheoli risg) gan nodi, er bod coronafeirws wedi'i ychwanegu at y gofrestr risg sefydliadol, efallai y byddai'r sefydliad am ychwanegu risgiau pellach o ystyried yr effaith yr oedd yn debygol o'i chael.

**CAM GWEITHREDU 01 - Adolygu cofrestr risg y sefydliad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â coronafeirws.**

**Crynodeb:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau wedi'u cwblhau.

**3. Cadarnhau Penderfyniadau a wnaed tu allan i'r Pwyllgor**

- 3.1. Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am y gwaith a wnaed ar y penderfyniadau tu allan i'r pwyllgor. Rhoddodd JN grynodeb o'r ymatebion.

[Penderfyniad Tu allan i'r Pwyllgor 1 - 2020-21 Cynllun busnes, cynllun gweithredol, staffio a'r gyllideb](#)

- 3.2. Cymeradwyodd aelodau'r bwrdd y canlynol:

- Y blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2020-21
- Y cynnydd i nifer y swyddi cymeradwy o 86 i 88
- Y gyllideb ar gyfer 2020-21
- Y Cynllun Cyllid Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2022-23
- Y cynllun busnes drafft ar gyfer 2020-21, gyda'r gymeradwyaeth derfynol wedi'i dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.

- 3.3 Nododd y Bwrdd fod y cynllun gweithredol yn waelodlin ar gyfer y flwyddyn ac oherwydd yr effaith yr oedd coronafeirws yn debygol o'i chael ar y sefydliad, byddai angen adolygu'r cynllun yn rheolaidd. Byddai angen ail-flaenoriaethu gwaith wrth ystyried effaith salwch staff yn ogystal â newidiadau i'r amgylchedd gweithredu. Efallai y bydd hefyd angen ail-ystyried sut y gellir gwneud gwneud y defnydd gorau o'r sgorio RAG o ystyried y bydd angen i gynlluniau fod yn hyblyg.

[Penderfyniad Tu allan i'r Pwyllgor 2 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig 2019-22](#)

- 3.4 Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd ddiwygiadau i'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol i adlewyrchu bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r sefydliad.

- 3.5 Nodwyd, ar adeg cynhyrchu'r amcanion, nad oedd y sefydliad o'r farn bod ganddo fwch cyflog rhwng y rhywiau ac felly nodwyd hyn yn y cynllun. Roedd y cyflog cymedrig a chanolrif ar gyfer dynion a menywod ymhob band wedi'i gyhoeddi'n rheolaidd yn y cyfrifon blynyddol ond nid oedd ffigur cyfanredol wedi'i gyfrifo a'i gyhoeddi. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi yn y cyfrifon o 2019/20 ymlaen.

[Penderfyniad Tu allan i'r Pwyllgor 3 - Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg](#)

- 3.6 Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd y Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod y Strategaeth wedi'i hadolygu gan y Pwyllgor Rheoleiddio yn ei gyfarfodydd ar 19 Rhagfyr a 27 Chwefror.

- 3.7 Nododd Jo Richards (JR) mai'r bwriad gwreiddiol oedd lansio'r Strategaeth yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai, ond mae'r digwyddiad bellach wedi'i ganslo ac felly bydd cynlluniau amgen yn cael eu datblygu.
- 3.8 Nododd y Bwrdd y defnydd o'r geiriad 'ei gwneud yn ofynnol i gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus a gymerir yn 16 oed fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg'. Trafodwyd hyn a chytunwyd y byddai'r geiriad yn aros.

**Crynodeb:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2020-21
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnydd i nifer y swyddi cymeradwy o 86 i 88
- iii. Cymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb ar gyfer 2020-21
- iv. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Cyllid Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2022-23
- v. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun busnes drafft ar gyfer 2020-21, gyda'r gymeradwyaeth derfynol wedi'i dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.
- vi. Cymeradwyodd y Bwrdd Amcanion Cydraddoldeb Strategol diwygiedig 2019-22
- vii. Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg.

## 4 Diweddariad y Cadeirydd

- 4.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd fod cynllunio wrth gefn ar gyfer Coronafeirws wedi cael blaenoriaeth yn y sefydliad a'i fod wedi aros mewn cysylltiad dyddiol â Philip Blaker (PB). Nododd y byddai PB yn darparu trosolwg o'r sefyllfa yn ei adroddiad.
- 4.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd ei fod wedi cyfarfod â Chymdeithas yr Iaith ynghyd ag Emyr George, Cyfarwyddwr Cymwysterau, Polisi a Diwygio, a Claire Roberts, Pennaeth Ymgysylltu Strategol. Bydd papur briffio yn cael ei gylchredeg i'r Bwrdd a fydd yn rhoi trosolwg o'r pwyntiau a drafodwyd.
- 4.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd ei fod wedi cwblhau ei gyfarfodydd un i un gydag aelodau'r Bwrdd ac y byddai'n adrodd yn ôl am unrhyw themâu yn y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU 02 - DBJ/JN i gylchredeg papur briffio yn dilyn y cyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith.**

**Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd ddiweddariad y Cadeirydd.

## 5 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 5.1 Rhoddodd Philip Blaker (PB) drosolwg o'r trefniadau wrth gefn a roddwyd ar waith yn dilyn yr achosion o coronafeirws.

Adroddodd ar y trefniadau mewn perthynas â swyddogaeth gorfforaethol Cymwysterau Cymru a rôl Cymwysterau Cymru yn y system gymwysterau.

- 5.2 Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod yr holl staff wedi bod yn gweithio gartref a bod ganddynt yr offer TG priodol. Roedd cyfarfodydd yn parhau gan ddefnyddio Skype a Microsoft Teams. Sicrhaodd PB y Bwrdd fod canllawiau cyfredol yn cael eu rhoi i staff yn rheolaidd. Roedd adran ar wahân ar coronafirws wedi'i sefydlu ar fewnwyd y sefydliad, QWintEssential. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd y byddai'r adeilad ar gau o ddiwedd yr wythnos, heblaw mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol. Cydnabuwyd bod angen i'r gwaith barhau ac y byddai angen gweithio'n wahanol. Roedd y sefydliad yn sensitif i faterion gofal plant/gofal a darparwyd arweiniad i staff. Roedd gweithgaredd recriwtio wedi'i atal am y tro, heblaw am ddwy ymgyrch recriwtio a oedd eisoes ar y gweill.
- 5.3 Nododd PB bwysigrwydd iechyd metel a lles staff a rhoddodd wybod i'r Bwrdd fod y sefydliad yn bwriadu cyflwyno amrywiaeth o ddulliau i gadw cysylltiad. Byddai cyfarfodydd 'neuadd y dref' ar gyfer y sefydliad cyfan yn parhau'n rheolaidd ac roedd cegin rithwir wedi'i sefydlu. Adroddodd PB fod y Tîm Gweithredol yn cyfarfod yn ddyddiol a'u bod yn mynd i gael golwg 16 wythnos ar y gwaith o'u blaenau.
- 5.4 Nododd Alison Standfast (AS) fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Hysbysiad Polisi Caffael (PPN) a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru - gan roi cyngor ar dalu cyflenwyr i gadw parhad busnes a llacio rheolau 'Rheoli Arian Cyhoeddus' ar daliad cyn yr angen. Cynigiodd AS anfon copi at aelodau ARAC.
- 5.5 Rhoddodd PB ddiweddariad i'r Bwrdd ar gynllunio wrth gefn ar gyfer cyfres arholiadau'r haf. Nododd fod rheoleiddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gymryd agwedd tair gwlad at faterion lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Atgoffodd y Bwrdd fod cyhoeddiad ynghylch cymwysterau TGAU a Safon Uwch wedi'i wneud ddydd Gwener 20 Mawrth a'r bwriad oedd y byddai cyhoeddiad ynghylch cymwysterau UG ac Unedau Blwyddyn 10 yn cael ei wneud ddydd Gwener 27 Mawrth.
- 5.6 Rhoddodd Jo Richards (JR) wybod i'r Bwrdd fod y sefydliad wedi sefydlu grŵp digwyddiadau a'i fod yn cyfarfod yn ddyddiol. Rhoddodd JR drosolwg manwl o'r llinynnau gwaith gan gynnwys y trefniadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol, Cymwysterau Galwedigaethol, cyfathrebu ac ymgysylltu a newidiadau i ddogfennaeth reoleiddio. Nododd JR yr ymgynghorwyd â'n cyfreithwyr drwy'r cyfan. Nodwyd bod Cymwysterau Cymru yn derbyn nifer o ymholiadau ac felly roedd y wefan yn cael ei diweddarau bob dydd gyda gwybodaeth newydd.
- 5.7. Nododd y Bwrdd eu sicrwydd a'u hyder yn y gwaith sydd ar y gweill a diolchwyd i'r staff am eu proffesiynoldeb. Gofynnodd y Bwrdd a oedd cynllun wrth gefn pe bai aelodau allweddol o'r tîm digwyddiadau yn mynd yn sâl. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod gwaith y tîm digwyddiadau yn cael ei gofnodi'n drylwyr ac y byddai gan Gyfarwyddwyr eraill oruchwyliaeth ac felly gallent gefnogi pe bai angen. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd y byddai'n eu diweddarau.

**Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolchwyd iddo am ei ddiweddariad.

**6 Cymwys ar gyfer y Dyfodol**

- 6.1 Cyflwynodd Emyr George (EG) yr eitem ar yr agenda a rhoddodd wybod i'r Bwrdd ei fod yn ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau a fyddai'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol, ynghyd â'r pwyntiau allweddol a fyddai'n cael eu cynnwys yn y cyngor i'r Gweinidog Addysg. Gofynnodd i'r ddau gyhoeddiad gael eu dirprwyo i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol i'w cymeradwyo'n derfynol. Rhoddodd wybod i'r Bwrdd fod y trydydd adroddiad a gynhwysir yn y papurau, yr adroddiad dadansoddi ymgynghoriad drafft, wedi'i ddarparu cyn ei gymeradwyo ar gyfer cefndir a chyd-destun. Nodwyd mai'r bwriad yw cyhoeddi pob un o'r tair dogfen (adroddiad dadansoddi ymgynghoriad, adroddiad penderfyniadau a chyngor i'r Gweinidog Addysg) ym mis Mai.
- 6.2 Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth hir ar gynnwys yr adroddiad penderfyniadau a'r cyngor drafft i'r Gweinidog. Cydnabuwyd bod angen mireinio pellach, ac y gellid cwtogori'r papur cyngori, gan ddefnyddio atodiadau lle bo hynny'n bosibl. Trafodwyd amseriad y cyhoeddiadau, a chytunwyd er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi ym mis Mai, y gallai'r amgylchedd presennol effeithio ar hyn. Cytunwyd y dylai'r gwaith fynd yn ei flaen yn unol â chyhoeddiad ym mis Mai ac y byddai hyn yn cael ei ail-werthuso yn nes at yr amser.
- 6.3 Gofynnodd y Bwrdd a oedd y sefydliad yn fodlon â nifer yr ymatebion a dderbyniwyd a rhoddwyd sicrwydd iddynt fod y sefydliad yn fodlon. Argymhellodd y Bwrdd y dylid cyfeirio mwy at gymwysterau galwedigaethol yn y cyngor ac y dylai'r sefydliad ailystyried ei safbwynt ar gyflymder y newid tuag at fwy o ddefnydd o dechnoleg wrth asesu. Awgrymwyd y gallai coronafirws gael effaith sectoraidd ar fywyd ac arferion gwaith a allai arwain at newid systematig yn y ffordd y mae technoleg yn cael ei defnyddio. Awgrymodd y Bwrdd y gallai'r penderfyniad i gadw'r brand TGAU gael ei nodi'n gliriach. Awgrymodd y Bwrdd hefyd y dylid adolygu geiriad y gefnogaeth ar gyfer cymwysterau sgiliau ar wahân ac awgrymodd y dylai hyn alinio â'r adroddiad ymgynghori.
- 6.4 Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniadau y bydd Cymwysterau Cymru yn eu cymryd yn dilyn yr ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol a chymeradwyodd y pwyntiau allweddol i'w cynnwys yn y cyngor cysylltiedig i'r Gweinidog Addysg. Dirprwyodd y Bwrdd gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.

**Crynodeb:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniadau y bydd Cymwysterau Cymru yn eu cymryd yn dilyn yr ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol a

dirprwyodd gymeradwyaeth derfynol yr adroddiad i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.

- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y pwyntiau allweddol i'w cynnwys yn y cyngor i'r Gweinidog Addysg a dirprwyodd y cymeradwyaeth derfynol i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.

## **7. Unrhyw Fater Arall**

- 7.1 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30